**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**
**Menywod a’r system gyfiawnder**
**Dydd Gwener 14 Gorffennaf 2023, drwy gyfrwng Zoom, 11:30–12:30**

***Yn bresennol:***
*Siân Gwenllian AS*
*Jane Hutt AS (Siaradwr)*
*Jane Dodds AS*
*Sioned Williams AS*
*Dr Robert Jones, Prifysgol Caerdydd (Siaradwr)*
*Leah Reed, Prifysgol Caerdydd (Siaradwr)*
*Dr Rachel Minto, Prifysgol Caerdydd (Siaradwr)*
*Dr Jo Roberts, Prifysgol De Cymru*
*Abi Thomas, Plaid Cymru*
*Alison Parken, Ysgol Busnes Caerdydd*
*Jane Fenton-May, Cynulliad Merched Cymru*
*Chris Dunn, Diverse Cymru*
*Megan Thomas, Anabledd Cymru*
*Sarah Thomas, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched*
*Stephanie Grimshaw, Cymorth i Ferched Cymru*
*Tanya Harrington, Stonewall Cymru*
*Tomos Evans, Chwarae Teg*
*Hade Turkmen, Oxfam Cymru*
*Rhianydd Williams, TUC Cymru*
*Rhianon Bragg*
*Wanjiku Mbugua-Ngotho, Bawso*
*Dr Larissa Peixoto, Prifysgol Caerdydd*
*Leanne Waring, Coleg Caerdydd a’r Fro*
*Kirsty Hudson*
*Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru*
*Sarah Evans, Llywodraeth Cymru*
*Simon Borja, Cymru Ddiogelach*
*Ioan Bellin, Plaid Cymru*
*Andrew Misell, Alcohol Change UK*
*Merisha Weeks, Llywodraeth Cymru*
*Emma Henwood, Chwaraeon Cymru*
*Will Davies, Senedd*
*Steffan Bryn, Llywodraeth Cymru*
*Hannah King*
*Vera Baird*
*Catherine Brannigan, Sefydliad Waterloo*
*Megan Evans, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru*
*Jessica Laimann, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru*

***Ymddiheuriadau:***
*Heledd Fychan AS*
Sara Kirkpatrick, Cymorth i Ferched Cymru

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad** – Cadeirydd<br><br>Croesawodd Siân Gwenllian AS bawb a dywedodd y byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar brofiadau menywod yn y system gyfiawnder, gyda ffocws penodol ar garcharu a chyd-destun datganoli yng Nghymru. |
| **2** | **'On the Jagged Edge' – profiadau menywod Cymru o gael eu carcharu**<br>Dr Robert Jones a Leah Reed, Prifysgol Caerdydd<br><br>Croesawodd y cadeirydd Dr Robert Jones, darlithydd ar system cyfiawnder troseddol Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd a chydawdur *The Welsh Criminal Justice System: On the Jagged Edge,* ynghyd a Leah Reed, ymgeisydd doethuriaeth mewn troseddeg y mae ei hymchwil yn anelu at gynhyrchu'r astudiaeth empirig fanwl gyntaf o garcharu menywod yng Nghymru.<br><br>Nododd Robert gyd-destun cyffredinol y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Er gwaethaf pwysigrwydd datganoli mewn meysydd fel iechyd, tai, addysg a gofal cymdeithasol, mae Cymru'n parhau i fod yn rhan o awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ac felly'n rhan o gylch gwaith Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae datganoli wedi golygu bod angen meddwl am Gymru fel gofod ar wahân yng nghyd-destun y system cyfiawnder troseddol.<br><br>Y prif honiad yn *On the Jagged Edge* yw bod rôl Cymru yn system Cymru a Lloegr wedi newid yn sylfaenol ac nad yw bellach yn gwneud synnwyr i feddwl am system Cymru a Lloegr fel un. Mae system cyfiawnder troseddol penodol i Gymru eisoes yn dod i'r amlwg ac mae angen gwell dealltwriaeth o hyn a'r problemau niferus sy'n wynebu cymunedau Cymru.<br><br>Aeth Leah ymlaen i egluro natur carcharu menywod o fewn y cyd-destun hwn. Ychydig iawn o dystiolaeth empirig oedd ar brofiad menywod yng Nghymru gan mai "Lloegr a Chymru" oedd yr uned ddadansoddi amlycaf o hyd. Ond roedd cydnabyddiaeth bod menywod Cymru yn wynebu set benodol o heriau, er enghraifft nid oedd carchar i fenywod yng Nghymru, a oedd yn golygu bod menywod a oedd wedi'u carcharu yn Lloegr wedi'u hynysu oddi wrth eu ffrindiau a'u teuluoedd, a oedd yn ei chael hi'n anodd ymweld â nhw yn aml.<br><br>Mae menywod Cymru yn y system garchardai yn anweledig mewn dwy ffordd. Mae menywod yn gyffredinol yn aml yn anweledig mewn dadleuon academaidd ar garcharu, ac mae Cymru'n cael ei gwneud yn anweledig yng nghyd-destun "Cymru a Lloegr". Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod gan Gymru'r cyfraddau uchaf ond un o fenywod yn y carchar ar draws rhanbarthau Cymru a Lloegr, gyda'r rhan fwyaf o ddedfrydau am lai na chwe mis.<br><br>Esboniodd Robert, gan mai dim ond 5.2% o boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru, ychydig o sylw mae'n ei gael gan lunwyr polisi'r DU, a bod diffyg strwythurau clir ar gyfer atebolrwydd democrataidd a chraffu dros y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Roedd polisïau'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn anwybyddu'r cyd-destun Cymreig yn rheolaidd ac ychydig iawn o ddylanwad oedd gan |

| | |
|---|---|
| | gyrff sy’n wynebu Cymru fel Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru ar lunio polisïau. Roedd system “Lloegr a Chymru” yn ei hanfod yn parhau i fod yn system Seisnig lle’r oedd Cymru yn ôl-ystyriaeth yn rhy aml.<br><br>Mae hyn yn arwain at rwystredigaeth anochel wrth geisio gweithredu polisi penodol, megis ffocws Llywodraeth Cymru ar atal a lleihau niwed yn hytrach na throseddoli a chosbi, gan gynnwys yng nghyd-destun troseddu gan fenywod.<br><br>I grynhoi, mae gan Gymru ei system cyfiawnder troseddol penodol ei hun, ac mae ei chanlyniadau’n gymharol wael. Mae llunio polisïau effeithiol yn heriol iawn oherwydd y cyd-destun cyfansoddiadol, ac mae’r broblem hon yn cael ei gwaethygu gan strwythurau craffu ac atebolrwydd gwan. Mae angen dybryd i ddeall yn well y problemau sy’n wynebu Cymru, menywod Cymru, a chymunedau Cymreig. |
| ***3*** | **Ymateb gan Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Robert a Leah am eu cyflwyniad craff, a oedd yn amlygu'r angen dirfawr am newidiadau strwythurol i wella profiad menywod yn y system carchardai. Gwahoddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i ymateb.<br><br>Dywedodd y Gweinidog fod yr ymchwil yn *On the Jagged Edge* wedi helpu i lywio barn Llywodraeth Cymru ynghylch datganoli cyfiawnder, a oedd yn ymrwymiad yn y cytundeb cydweithredu.<br><br>Tynnodd sylw at y ffaith ei fod yn bwysig ysgogi gwelliannau o fewn y system bresennol, yn ogystal â gwneud yr achos dros ei drawsnewid. Bwriad y glasbrint cyfiawnder menywod oedd cyflawni hyn drwy ddarparu cymorth ymarferol drwy wasanaethau fel y rhaglen fraenaru, mewn cydweithrediad â'r Cwnsler Cyffredinol a chanolfannau menywod yng Nghymru. Dangosodd gwerthusiad diweddar o’r rhaglen fraenaru ei fod yn effeithiol o ran gwella bywydau menywod a oedd yn agored i niwed. Dywedodd y Gweinidog fod ffactorau fel trais domestig, cam-drin sylweddau, problemau iechyd meddwl, trawma a thlodi yn sbarduno troseddu gan fenywod ac na ellid datrys y rhain drwy garcharu. Er nad oedd cyfiawnder troseddol wedi’i ddatganoli, roedd Llywodraeth Cymru yn ariannu amrywiaeth o fentrau, fel y gwasanaeth ymweld â mamau.<br><br>Tynnodd y Gweinidog sylw at gyfleoedd yng ngoleuni adroddiad Comisiwn Brown yn ogystal â’r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i baratoi’r achos dros ddatganoli cyfiawnder a phlismona a chroesawodd dystiolaeth bellach i gefnogi’r gwaith hwn. |
| **4** | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol**<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweinidog am ei sylwadau, a gofynnodd am gwestiynau a sylwadau gan y rhai a oedd yn bresennol.<br><br>Dywedodd Vera Baird ei bod, fel cynghorydd annibynnol, yn edrych ar sut i wella’r broses o gosbi troseddwyr benywaidd, gan gynnwys drwy edrych ar y model o |

| | |
|---|---|
| | ddatganoli rhannol ym Manceinion, lle'r oedd y gwasanaeth prawf yn cael ei gydgomisiynu.<br><br>Gofynnodd Jessica Laimann (Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru) a oedd tystiolaeth wedi'i dadgyfuno ar gael ar brofiad menywod o grwpiau demograffig gwahanol. Dywedodd Leah, er y byddai ei hymchwil yn darparu rhywfaint o ddata wedi'i dadgyfuno, y byddai angen iddo ganolbwyntio ar drosolwg cyffredinol gyda'r gobaith o ysbrydoli gwaith pellach ar hyn yn y dyfodol.<br><br>Soniodd Sioned Williams AS am sut mae'n rhaid dibynnu ar geisiadau rhyddid gwybodaeth er mwyn cael mynediad at ddata perthnasol a gofynnodd a oedd unrhyw beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i wella mynediad yn hynny o beth. Nododd Robert mai gwneud ceisiadau rhyddid gwybodaeth yw'r brif ffordd o gael data o hyd, ac mae dyna sut y mae hi ers degawd. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi paratoi rhestr o ddata gofynnol ar gyfer Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ei bod yn trafod hyn gyda Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU ac y byddai'n hapus i roi diweddariad ar hyn i'r grŵp trawsbleidiol yn y dyfodol.<br><br>Adleisiodd Larissa Peixoto (Prifysgol Caerdydd) bryderon ynghylch mynediad at ddata ac ychwanegodd mai anhawster arall oedd defnyddio samplau Cymru a Lloegr heb unrhyw ddata wedi'i dadgyfuno ar gyfer Cymru. Yn ogystal â data agored, roedd angen samplu gwell ar gyfer Cymru er mwyn gwella ein sylfaen dystiolaeth a chreu gwell polisi.<br><br>Tynnodd Jane Fenton-May (Cynulliad Merched Cymru) sylw at yr angen am dai diogel i fynd i'r afael ag aildroseddu rheolaidd.<br><br>Pwysleisiodd Wanjiku Mbugua-Ngotho (Bawso) fod carcharorion benywaidd du ac o leiafrifoedd ethnig yn cynnwys dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a oedd yn amddiffyn eu hunain ond nad oedd eu tystiolaeth yn cael ei hystyried oherwydd rhwystrau iaith. Roedd Bawso yn bwriadu dechrau gweithio gyda charcharorion benywaidd yng ngharchar Eastwood Park i ddeall effaith yr anfantais ddwbl oherwydd gwahaniaethu, hiliaeth, a'r diffyg cyfathrebu rhwng yr heddlu a dioddefwyr yng nghyd-destun trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. |
| **4** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru)**<br><br>Dywedodd Dr Rachel Minto fod Pwyllgor Senedd Ewrop ar Hawliau Menywod a Chydraddoldeb Rhywiol wedi derbyn adroddiad drafft ar reoleiddio puteindra yn yr UE. Galwodd yr adroddiad am ddull Ewrop gyfan o fynd i'r afael â phuteindra drwy ddad-droseddoli puteindra a chefnogi'r rhai sydd am adael y proffesiwn, wrth dargedu prynwyr a thrydydd partïon a oedd yn cymryd mantais ohonynt. Roedd modelau tebyg eisoes wedi'u mabwysiadu yn Ffrainc, Sweden ac Iwerddon.<br><br>Dau ddigwyddiad allweddol ar gyfer 2024 oedd Etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mehefin a diwedd tymor cyntaf yr arlywydd Ursula von der Leyen. Roedd Von der Leyen wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yng ngwaith y |

| | |
|---|---|
| | Comisiwn a cheisiodd ei integreiddio mewn cynigion polisi mawr fel y Fargen Werdd Ewropeaidd a rhaglen adfer Covid. |
| 5 | **Unrhyw fater arall**<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf:  15 Medi 2023. |
| 6 | *Diwedd* |